

Llais Llandyrnog Voice

✉ llandyrnognews@gmail.com 🐦 [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Hydref 2021 – Cyfrol 7- Rhifyn 1

Taith gerdded o'r wawr tan y machlud

Roedd y daith gerdded yn ddigwyddiad gwych. Codwyd £2,249 ar gyfer project llwyfan coffa Lis Morris. Mae'r holl gariad a chefnogaeth sydd wedi bod yn amlwg yn dangos dynes mor arbennig oedd Mrs Morris, ac sy'n dal i fod mor arbennig i gymaint o bobl. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cerdded, a chyfrannu mewn ffyrdd eraill hefyd.



Diolch yn arbennig i Phil O'Loughlin am gymryd lluniau, Daniel Jones a'i Feibion am gyfrannu'r bwyd, teulu'r Morrisiaid am agor a chau'r digwyddiad, ac i Jason Jones am drefnu diwrnod mor wych.

Y digwyddiad nesaf i godi arian fydd sioe dalentau i'n disgyblion a'u teuluoedd, i'r ysgol yn unig, ond fe rown wybod i chi am ragor o ddigwyddiadau yn y gymuned.

Unwaith eto, diolch o galon!

Sioe Rithiol Llandyrnog 2021

Cyn bo hir, bydd llyfryn sy'n cynnwys lluniau'r sioe rithiol ar gael yn Swyddfa'r Post ac yn siop cigydd Daniel Jones. Mae gwledd liwgar i'r llygaid yn eich disgwyl chi!



Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Pytiau newyddion y pentre

Llongyfarchiadau...

... i Elan Foulkes, Pentrefelin ar ei phriodas ag Adam Stone o Derby. Roedd y briodas yn Ashbourne, ger Derby, 29 Awst. Mae Elan yn ffisiolegydd cardiaidd yn Ysbyty Cyffredinol Leeds ac Adam yn ddatblygwr meddalwedd. Byddan nhw'n ymgartrefu ar gyrion Leeds.

... i Heather Powell, Capel Isa, Pennaeth Gwasanaeth Cerdd Cydweithredol Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth ar y rhestr fer ar gyfer gwobr 'Technoleg er budd: technoleg mewn mentrau cymdeithasol' Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2021. Bydd y seremoni wobrwyo nos Fawrth, 5 Hydref.

... i dîm *pool* A y Golden Lion ar ddod yn bencampwyr Cynghrair *Pool* Dinbych a'r Cyffiniau.

Croeso ...

... i Ruby Grace a llongyfarchiadau i Mam a Dad, Vicky a Danny Owen, Craig Lea.

... i'r Athro Waqar Bhapt a Dr Afshan Khawaja a'u merched i Ben y Bryn, Llangwyfan.

... i Manon a Colum i Barc Ty'n Llan.

Cydymdeimlwn ...

â theulu'r diweddar Owen Hughes, Maes Tyrnog ac â theulu Bob Hall – yntau hefyd o Faes Tyrnog.

Dymuniadau da

... i Brenda Williams, ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod byr,

... i Grace Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Pob hwyl i ...

... Beth Jones Owen, Y Wern (stablau/iard ceffylau rasio Tyrnog) yn rhedeg Marathon Llundain ddydd Sul 3 Hydref, yn codi arian i Macmillan Cancer Support. Os hoffech chi ei noddi, ewch i uk.virginmoneygiving.com a chwiliwch am Bethan Jones Owen. Ddydd Sadwrn, 16 Hydref bydd bore coffi yn neuadd y pentref i gyfrannu at yr achos.

Bore coffi

10 o'r gloch, Sadwrn, 16 Hydref

yn Neuadd y Pentref
er budd Macmillan Cancer Support

Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at y raffl a'r stondin gacennau a chynnyrch cartref



Costau hurio Neuadd y Pentre

Am gyfnod o chwe mis yn unig, o 1 Hydref, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

Mae Gwen Davies, Hafod y Bryn gynt, yn diolch yn fawr iawn i'w ffrindiau am eu cyfarchion ar achlysur ei phen blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Dyma hi gyda'i hwyrion: Hywel, Non, Lisa, Elin, Manon, Tomos ac Ifan.



Oedfaon yr Eglwys

St Tyrnog

3 Hydref: 11.15 Cymun Bendigaid –
Gwasanaeth Diolchgarwch

10 Hydref: 11.15 Boreol weddi

17 Hydref: 11.15 Boreol weddi

24 Hydref: 11.15 Boreol weddi

31 Hydref: 11.15 Cymun Bendigaid

St Cwyfan

17 Hydref: 17.00 Cymun Bendigaid

Neuadd y pentref

10 Hydref: 3.30–5.30 y pawns. Llan Llanast.
Creffttau, addoli, bwyd, i'r teulu cyfan. Croeso
cynnes i bawb. Rhaid i blant ddod ag oedolyn
gyda nhw.

Oedfaon Capel y Dyffryn

3 Hydref, 11 .00: Y Parch. Eric Jones

10 Hydref, 9.45: Gwasanaeth Diolchgarwch y
plant

17 Hydref: Ni fydd gwasanaeth

24 Hydref, 9.45: Y Parch. R.G. Jones

31 Hydref, 10.00: Oedfa'r ofalaeth.



Mae Llan Llanast yn ei ôl! Ar ôl blwyddyn o anfon Llan Llanast at y plant mewn bag, fe ddaethon ni at ein gilydd o'r diwedd ddydd Sul, 19 Medi. Roedd hi'n hyfryd gweld pawb eto a gweld faint roedd y plant wedi tyfu.

Fe fuon ni'n dathlu creadigaeth Duw a dysgu am ffyrdd i helpu anifeiliaid a phryfed i ffynnu. Gwnaeth Jack westy i draenogod, a gafodd ei baentio wedyn (y gwesty, nid Jack!). Erbyn hyn mae y tu allan i'r eglwys, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd yn denu draenog i aros ynddo.

Hefyd, fe fuon ni'n gwneud tai pryfed mewn potiau planhigion wedi'u llenwi â rhisgl a moch coed, a rhwydi o fwyd adar a draenogod o foch coed. Roedd addurno chwyddwydrau yn hwyl ac wedyn eu defnyddio nhw y tu allan i chwilio am bryfed.

Gan fod y tywydd yn braf, fe gawson ni ein sesiwn addoli y tu allan a mwynhau barbeciw gyda'n gilydd.

Bydd ein cyfarfod Llan Llanast nesaf ddydd Sul 10 Hydref am 3.30 y pawns yn Neuadd y Pentref. Croeso cynnes i bawb.





Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week



Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat

Ras glwydi i'r Eidal

Rhyw deimladau cymysg oedd gennym wrth i ni ddringo grisiau'r awyren ym Maes Awyr Manceinion ganol fis Gorffennaf – tebyg falle i rai Sydney Mcgloughlin – enillydd Olympaidd a thorrrwr record byd y ras glwydi 400m i ferched!! I mewn â ni i'r awyren, gan ddiolch bod Ryanair yn gallu'n cario ni'n nes at y teulu yn yr Eidal, a chael eu gweld am y tro cyntaf ers 10 mis!

Er bod Mark Drakeford yn annog pawb i **beidio** cael gwylie dramor, roedd cael gweld y teulu'n bwysicach yn ein golwg ni. Doedd y paratoi arferol i fynd i'r Eidal yn ddim o'i gymharu â'r rheolau diweddar – dwsin o leiaf o 'hyrds' i'w neidio – ras glwydi go iawn!!

I ddechrau'n y diwedd, pori drwy holl wybodaeth ddiweddara Llywodraeth Cymru ar sut i ddod 'nôl' i Gymru fach yn ddiogel. Yna i gael bod yn siŵr o reolau diweddara'r Eidal, 'gwglo' gwefan Llysgenhadaeth yr Eidal yn Llundain! Yna gwirio rheolau newydd Ryanair, Maes Awyr Manceinion a'r Maes Parcio *Meet and Greet* T3 arferol.

Lle i ddechre? Rhestr o ofynion MYND YNO:
1. Llenwi *Ffurflen Lleoli Teithwyr* i'r Eidal – honno'n fanwl ac angen gwybod popeth ond lliw eich perfedd!!

2. Angen tystysgrif i ddangos ein bod wedi cael dau frechiad Cofid. Felly, mynd at wefan GIG Cymru i lenwi'r ffurflen – OND problemau! 'Nôl at y ffôn dibynadwy a derbyn y ddwy dystysgrif drwy'r post.

3. Rhaid oedd cael prawf Cofid 19 o fewn 48 awr cyn hedfan – doedd dau frechiad Cofid GIG ddim yn ddigon o dystiolaeth. 'Rhaid i chi ddefnyddio cwmni preifat!!' medde nhw! Penderfynu ar fferyllfa ddibynadwy Boots. Gweld bod Boots Wreccsam yn cynnig prawf Cofid PCR, OND gallen nhw ddim sicrhau bydde'r canlyniad yn dod 'nôl mewn pryd. Felly, prawf Cofid Antigen amdani, a chanlyniad mewn 20 munud. Roedd rhaid mynd i Fferyllfa Boots reit yng nghanol Lerpwl i hynny. Felly taith i Lerpwl, a rhyddhad bod y profion yn negatif!

4. Cyn derbyn *Boarding Passes* Ryanair yn

ddigidol, roedd rhaid llenwi tystiolaeth yr holl ddogfennau ysgrifenedig a'u huwchlwytho ar eu ffurflen nhw fel eu bod yn ddigidol hefyd!
5. Cyrraedd Maes Awyr Manceinion am 5 y bore, a throi mewn i fynedfa parcio *Meet and Greet* T3 fel arfer, ond NEB o gwbl yn Terminws 3, na neb yno i Mît na Grît! Creisis! Lle roedden ni i fod i adael y car, 'te? Ymhen hir a hwyr, deall ein bod yn parcio'r car rhywle mewn Maes Parcio Arhosiad Hir, a chadw'r gorriad yn saff am bythefnos! Cerdded wedyn yr holl ffordd i adeilad Terminws 1!

6. Y dogfennau papur ychwanegol yn cael eu gwirio'n fanwl cyn y tollau gan ddau aelod o staff i weld os oedden nhw'n cyd-fynd â'r *boarding passes* digidol – a stamp rwber hen ffasiwn wedyn "*DOCS OK*"! Rhyddhad eto! 30 o bobl ar awyren oedd yn dal 192 – a'r stiwardiaid yn gyfeillgar iawn, a digon o amser i chi am unwaith. Roedd fel teithio mewn jet preifat!!

7. Cyrraedd Maes Awyr Ciampino Rhufain, a mynd fel malwen drwy'r tollau, ond yn ddi-drafferth. Dal i wisgo mwgwd ar y bws i *Roma Termini* (Prif Stesion Rhufain) ac ar y trêni i Nettuno, lle mae'r teulu'n byw.

Mae Nettuno'n dref ar arfordir Môr Tyren yng nghanol yr Eidal, 60km (37milltir) i'r De o Rufain. Rhyw 4 km i ffwrdd mae tref Anzio – tref sy'n cael ei chofio am y '*beach landings*' enwog Ionawr 1944 adeg yr Ail Ryfel Byd. Mae creithiau'r rhyfel i'w gweld o hyd ar rai adeiladau a nifer o Fynwentydd Rhyfel Americanaidd a Phrydeinig yno – mae bedd bachgen o Lansannan yn un ohonyn nhw!

8. Yn ôl rheolau'r Eidal ynglŷn â thwristiaid bryd hynny, roedd rhaid cofrestru'n syth gyda'r llywodraeth i gofrestru'n arhosiad a bod mewn cwarantîn adre am 5 diwrnod. Gan fod ysgolion yr Eidal yn cau 15 Mehefin tan 15 Medi, cawsom amser braf yn y tŷ efo'r tair wyres – chwarae a gwneud '*Il Compito*', sef gwaith cartref dros yr haf! Mae'r gwaith yn drwm – tua 176 tudalen i'w cwblhau i blentyn 7 oed!! Felly, dyma'r hen sgiliau athrawon yn dod yn handi ac yn siwtio ni i'r dim mewn cwarantîn, a

Ras glwydi i'r Eidal: parhad

haul tanbaid y tu allan!!

9. Mynd am brawf Cofid arall mewn fferyllfa ar ôl 5 diwrnod o gwarantîn. Elen yn nabod perchnogion fferyllfa, a chael profion (negyddol!) yn ddiraffferth am 20 Ewro!

Cael amser gwych efo'r teulu pan gawsom ni'n rhyddid, a chael ambell drip i lan y môr, bwyta pysgod a phitsas, yfed capuccinos, cyfle i helpu Elen yn ei gwaith yn y caeau melons (34 °C – ffiw!), ac ymweld â Deruta yn Perugia – cartref y gwaith cerameg *maiolica* bydenwog (priddwaith gwydredd tun wedi eu paentio).



'NÔL I GYMRU

10. Rhaid oedd llenwi Ffurflen Lleoli Teithwyr i'r DU, gan ddatgan eich bod wedi archebu Prawf PCR Cofid Diwrnod 2 ar y we cyn hynny – roedd bocsi i roi Rhif Ordor y Prawf hwnnw ar y ffurflen wrth gwrs!!

Archebu'r Prawf PCR ar-lein gan YR UNIG gwmni mae GIG Cymru yn ei ddefnyddio, y CTM (£88 yr un !! – dim dewis). Newyddion da yn ein cyrraedd – Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dileu cwarantîn 10 diwrnod wedi dychwelyd i Gymru a phrawf Diwrnod 8!

11. Cael prawf Cofid (antigen) gan yr un fferylllydd o fewn 72 awr cyn teithio adre.

Cael lifft gan Elen, oedd ar ei ffordd i weld mwy o gaeau melons, i Faes Awyr Ciampino. Mynd drwy'r tollau arferol. Gosod y pasbort yn y blwch i'w wirio. X – croes fawr goch yn

ymddangos! Meddwl, 'Be sy'n bod ar y peiriant heddiw tybed??' Y swyddog tollau'n gweld hyn ac yn dweud wrthym ni ein bod ni yn y ciw anghywir. Ymuno â'r ciw cywir – dyma'r ciw *NON EU* h.y. pobl tu allan i'r Undeb Ewropeaidd! Cyrraedd y blwch gwirio pasbort cywir ar ôl tri chwarter awr o giwio, a chymeriad o Swydd Efrog y tu ôl i ni'n melltithio *Brexit* am yr oedi!)

12. Dau ddiwrnod ar ôl cyrraedd adre, gwneud y profion PCR drud, a'u hanfon i'w dadansoddi. Trannoeth, y canlyniadau'n cyrraedd – Ann yn negatif, gwych, ac un lestyn – *INVALID – o na!*. Wel dyna hyrdl arall! Angen prawf arall (am ddim y tro hwn!!) yn Rhuthun y diwrnod canlynol – hei bingo – negatif!!

A dyna ddiwedd y ras 12 hyrdl gymhleth ddaeth â ni adre'n un darn! Ond, wrth edrych 'nôl, teimlad o falchder ein bod wedi mentro mewn amser mor anodd a chael bron i bythefnos hapus a chofiadwy gyda'r teulu!!

Y sefyllfa ddiweddar yn yr Eidal – tebyg iawn i Gymru o ran gwisgo mygydau a chadw pellter. Llywodraeth yr Eidal yn bryderus bod nifer achosion Delta'n codi'n sydyn ac wedi cyflwyno'r 'cerdyn gwyrdd' (maen nhw'n defnyddio'r Saesneg – Green Pass) i fynd i'r afael â'r broblem. Hwn sy'n dangos eich bod wedi cael 2 frechlyn llawn neu brawf coronafirws negatif diweddar, yn enwedig y rhai sy'n gwella o'r haint. O 1af Medi, bydd hi'n ofynnol i ymwelwyr i amgueddfeydd a thai bwyta, pyllau nofio a champfeydd, athrawon, teithwyr awyr domestig, llongau fferi a threnau gael y cerdyn gwyrdd. Tra'r oeddem yn yr Eidal, achosodd y newyddion hyn cryn ddryswch a drwgdeimlad mewn rhai ardaloedd – bu gwrthdystio chwyrn, hyd yn oed ar lawr y senedd! Bellach, mae sawl gwlad yn dilyn esiampl yr Eidal ac yn cyflwyno'r cerdyn gwyrdd wrth geisio camu'n ara' deg tuag at fywyd 'normal'.

lestyn ac Ann (ar gais y Golygydd)

Ymddiheuriadau Ilaes iawn i lestyn ac Ann nad oedd yr erthygl hon wedi'i chyhoeddi yn rhifyn mis Medi.

Ryseitiau'r mis

Maro wedi'i stwffio â chyw iâr a chaws

1 llwy fwrdd taragon, newydd ei dorri'n fân
50g (2owns) menyn
450ml (³/₄pt) llefrith
50g (2owns) blawd plaen
Halen
250g (8 owns) cyw iâr wedi'i goginio, wedi'i dorri'n ddarnau
1 dafell o fara gwyn, yn friwsion
125g (4owns) caws cheddar cryf, wedi'i gratio
2 llwy fwrdd persli, newydd ei dorri'n fân

Dull

Cynheswch y popty – 190 °C, 375 °F, Nwy Marc 5

Piliwch y maro, torruch o yn ei hanner ar ei hyd a thynnwch yr hadau allan ohono, gan adael pant.

Berwch llond sosban fawr o ddŵr ag ychydig o halen ynddo, rhwch y maro yn y dŵr (y darnau wedi'u torri yn eu hanner eto os nad yw'r sosban yn ddigon mawr), a mudferwch y marro am 4–5 munud.

Rhowch y maro â'r pantiau yn wynebu ar i fyny mewn dysgl addas i'r popty, ac wedi'i hiro'n ysgafn.

Gwnewch y saws caws drwy doddi'r menyn mewn sosban, throwch y blawd i mewn iddo, a'i goginio am 1 munud, yn ei droi bob hyn a hyn. Tywalltwch y llefrith i mewn yn raddol, dewch ag o i'r berw, a'i fudferwi am 2–3 munud nes y bydd wedi tewychu ac yn llyfn.

Tynnwch y sosban oddi ar y gwres a throwch y rhan fwyaf o'r caws i mewn iddo, y rhan fwyaf o'r perlysiau, y cyw iâr, a halen fel y dymunwch.

Rhowch y cymysgedd yn y pantiau yn y maro. Cymysgwch y briwsion bara a gweddill y perlysiau ac ychydig o halen a phapur fel y dymunwch. Sgeintiwch hwn dros y llenwad yn y maro a'i bobi yn y popty am 25 munud nes y bydd wedi'i gynhesu drwyddo a lliw euraid arno.

Julie Wilson

Cawl pys rhwydd

1 telpyn mawr o fenyn
1 nionyn canolig ei faint, wedi'i dorri'n ddarnau
1 daten ganolig ei maint, wedi'i thorri'n ddarnau eitha bach
1 clof o arleg, wedi dorri'n fân neu ei falu
1 litr stoc llysiau poeth
500g pys wedi'u rhewi

Dull

Toddwch y menyn mewn sosban fawr, wedyn ychwanegwch y nionyn a'r daten a'u mudferwi'n araf nes eu bod nhw wedi meddalu ond heb droi eu lliw.

Ychwanegwch y garlleg a pharhewch i goginio'r llysiau'n araf am ychydig funudau.

Ychwanegwch y stoc a'r pys, dewch â'r cymysgedd i'r berw, wedyn ei goginio am ryw 5 munud, neu nes bydd y tatws wedi'u coginio. Tynnwch y sosban oddi ar y gwres a blendiwch y cawl nes bydd o'n llyfn.

I'w weini, rhwch ychydig o facwn wedi'i grimpio ar ei ben, neu ychydig o fint, ac ychydig o halen a phupur fel y dymunwch.

Carol Bellis

Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies

- ☞ Tanalised timber
- ☞ Concrete posts
- ☞ Panel fencing
- ☞ Water pipe fittings
- ☞ Water tanks
- ☞ Sand
- ☞ Cement
- ☞ Concrete blocks

Gair gan y Rheithor

Bydd nifer ohonoch yn gyfarwydd â'r gân *What a wonderful world*, a ganwyd gan Louis Armstrong. Edrychwch ar y geiriau eto – maen nhw'n cynnwys sawl gwirionedd. Yn eu plith mae'r geiriau 'the bright blessed day and dark sacred night'. Mae'r tywyllwch yn gysegredig, adeg gorffwys ac adfer, chwilio am heddwch yn ein byd prysur. Mae'r tywyllwch yn ein galluogi i werthfawrogi golau dydd.

Unwaith eto mae'r hydref ar ein gwarthaf, mae'r dyddiau'n byrhau ac mae dyddiau tywyll y gaeaf o'n blaenau. Rywsut, mae'r nosweithiau tywyll fel petaen nhw'n dod yn gyflymach o lawer na dyddiau golau'r gwanwyn, ond mae tywyllwch a goleuni ill dau'n rhan o greadigaeth Duw. *Dywedodd Duw, "Bydded goleuni." ... Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch. Galwodd Duw y goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos.* Genesis 1:3.

Mae ein byd yn troi drwy'r amser, felly pan mae hi'n ganol nos yn un rhan ohono, mae un arall yn wynebu'r wawr, ac un arall yn mwynhau haul canol dydd. Dywedir mae'r awr dywyllaf yw'r un cyn y wawr, a'r ffordd orau o werthfawrogi prydfwerthwch gwawr yw dechrau yn y tywyllwch. Mae tywyllwch a goleuni hefyd yn bod yn ein bywyd; rydyn ni'n cael adegau o lawenydd ac adegau o dristwch. Pan fyddwn yn wynebu anawsterau yn ein bywydau, mae Duw yn addo y bydd y wawr yn torri ac yn troi ein tywyllwch yn oleuni.

Byddwn ni i gyd yn wynebu adegau tywyll – colli un annwyl, diagnosis o salwch, neu newid sydyn yn ein hamgylchiadau nad oedden ni'n barod ar ei gyfer. Ond yn aml mae'r adegau tywyll hynny yn gyfnodau i dyfu, i werthfawrogi'r hyn sydd gennym ni, ac i edrych yn obeithiol i'r dyfodol. Roedd y Capten Tom Moore, a gododd fwy na £38 miliwn i'r GIG ar ddechrau'r pandemig, bob amser yn edrych yn obeithiol i'r dyfodol. Ei athroniaeth oedd 'bydd yfory'n ddiwrnod da' ac roedd hyn yn ei alluogi i feddwl yn gadarnhaol, ac yntau'n 100 oed, i roi gobaith i filoedd ar adeg heriol iawn

yn ein byd. Efallai y dylen ni i gyd dderbyn yr athroniaeth honno.

Mis yr Ŵyl Diolchgarwch yw mis Hydref, pan mae'r Eglwys yn diolch am roddion Duw i ni. Diolchw'n am gylch y flwyddyn ffermio ac i bawb sydd wedi gweithio'n galed i ddarparu ar gyfer ein hanghenion. Bydd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn eglwys St Tyrnog ddydd Sul, 3 Hydref am 11.15 y bore. Croeso cynnes i bawb.

Gyda phob bendith,
Val Rowlands

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 2pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Arolwg cyflymdra ceir

Dydy data'r arolwg cyflymder ar gyfer Groes Efa Bach, rhwng croesffordd Celynog a chroesffordd Llangwyfan, ddim yn dangos bod digon o dystiolaeth i ostwng y terfyn cyflymder. Mae'r arolwg yn dangos mai cyflymder cerbydau ar gyfartaledd yw 36.5 m.y.a. i gerbydau sy'n teithio i'r gorllewin, a 32.6 m.y.a. i gerbydau sy'n teithio i'r dwyrain. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos bod mwyafrif helaeth gyrwyr yn teithio ar gyflymder priodol yn y man dan sylw. Mae lleiafrif bach sy'n gyrru'n gyflymach na modurwyr eraill, mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o ffyrdd yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, roedd cofnod o un gyrrwr i gyfeiriad y gorllewin yn teithio ar 58 m.y.a. rhwng 6 a 7 o'r gloch y bore ddydd Iau, 5 Awst. Fodd bynnag, dylai newid i derfyniadau cyflymder fod yn seiliedig ar y cyflymder cymedrig (*mean speed*) ac nid ar achosion unigol o gyflymder amhriodol.

O ganlyniad i'r uchod, does dim bwriad i weithredu'n bellach ar hyn o bryd.

Nodiadau o Blas Ashpool

Wrth i mi ysgrifennu hwn, rydyn ni'n dal i fwynhau haf bach Mihangel ardderchog, a hir y parhaed felly! Mae hi'n rhoi cymaint o bleser i mi fod yn yr ardd yr adeg hon, gyda llawer o blanhigion yn blodeuo am y tro ola cyn yr hydref, a'r awgrym hyfryd hwnnw o ryfeddodau'r hydref i ddod eto.

Er 'mod i wrth fy modd efo'n dyffryn hardd a'r golygfeydd gwych rydyn ni'n gallu eu mwynhau, a fyddwn i ddim am funud am fod yn annheyrngar, mae'n rhaid i mi gyfaddef 'mod i newydd fod i le sydd â golygfa y tu hwnt i ryfeddol! Y bwriad oedd nôl ychydig o ieir a bantams.

O'r diwedd, ar ôl chwalu a chwilio, fe ges i gyfeiriad fferm yn Swydd Amwythig a fyddai'n gallu cyflenwi amrywiaeth o fy hoff bantams Pekin a chymysgedd o ieir mawr pur hefyd. Hwrê!

Trwy lwc, roedd fy ngŵr yn mynd i'r Amwythig i weithio beth bynnag, felly fe es i hefyd, am dro bach. Roedd Swydd Amwythig yn edrych yn hynod o brydferth y diwrnod hwnnw, hyd yn oed yn fwy prydfferth nag arfer. Fel pob antur, fe ddechreuodd yn dda ond yna fe ddaeth cyfres o sawl anffawd, sydd yn aml yn codi ar ôl i wŷr a gwraig benderfynu 'beth am fynd am dro?'

- 1: Cyfarfod busnes byr yn un hir, tair awr o hyd oherwydd rhywun arall a oedd yn teithio ar y traffyrdd yn cael ei rwystro. (Na phoener, gall y wraig ddifyrru'i hun yn rhoi trefn ar ei basged siop a gweddill cynnwys y car, gan ei bod yn gwybod y bydd yr ieir ganddi cyn bo hir).
2. Gŵr llwglyd. Y broblem wedi'i datrys. Dewch i ni chwilio am le bwyta i fodloni boliau gwag. Hawdd.
3. Taith ardderchog o gwmpas y dre, sawl gwaith drosodd, wrth i ddyn blin, llwglyd iawn chwilio am le i barcio. Fel petai pob un ar gyfer 'dadlwytho'. O'r diwedd – parcio, bwyta, ac i ffwrdd â ni eto. Hwrê!

4. Twm Twm yn mynd â ni i Gobbet's Farm, neu felly roedden ni'n tybio. Y ffyrdd yn troi'n lonydd, lonydd bron iawn â bod yn llwybrau – mi wyddoch chi sut mae hi.
5. Y wraig yn sylwi ar olau'n rhybuddio bod lefel y petrol yn isel. Dim sôn am orsafoedd petrol yn unlle.
6. Y tanc petrol bron yn wag, y gŵr yn hynod o flin. Roedd fy nisgrifiad o 'ychydig y tu allan i'r Amwythig' yn bell o fod yn wir.
7. O'r diwedd, Gobbet's Farm yn y golwg. Mynd i mewn i'r buarth. Cofiwch, dim arian parod yn y pwrs. Annhebygol bod fferm wledig yn derbyn cardiau talu. Sylwadau optimistig gan y wraig – ddim yn dderbyniol iawn. LLAWENYDD PUR: digonedd o ieir a bantams hardd. Methu penderfynu. Teimlo'r awydd i gael un o bob lliw. Y gŵr yn aros yn y car.
8. Ddim yn derbyn cardiau talu – fawr ddim syndod. 'Mi ffonia i'r banc i drosglwyddo arian i'ch cyfri.' Dyna ddatrys y broblem.
9. Dim signal ffôn.
10. I ffwrdd â ni i chwilio am swyddfa bost i gael arian parod neu allt uchel iawn i gael signal. Methu dod o hyd i'r naill na'r llall. Y car erbyn yn rhedeg ar awyr iach a stêm y gŵr blin iawn.
11. O'R DIWEDD: Cael hyd i allt a signal gwael iawn, talu. Llais caredig y peiriant yn dweud y dylai'r taliad fynd i'r cyfrif banc arall cyn pen dwy awr!
12. Dychwelyd i'r fferm, y taliad wedi cyrraedd eu cyfrif (diolch byth), gafael yn yr ieir a'r bantams, ac i ffwrdd â ni ar hyd lonydd llai byth. Y ffermwr ieir caredig yn ein sicrhau bod yr orsaf betrol ac achubiaeth ychydig o filltiroedd i lawr y lôn. Ffiw!
13. Cymryd sawl tro anghywir – a rifysio'n aml oherwydd y traffig nôl plant o'r ysgol yn mynd i'r cyfeiriad arall. Cyrraedd yr orsaf betrol. Pob dim yn iawn!

Plas Ashpool: parhad

A holl bwynt y stori hirwyntog hon oedd rhoi gwybod i chi fod 'pob dim yn iawn' mewn gwirionedd, oherwydd yno, ar ddiwedd milltir-oedd lawer o lonydd cefn gwlad, roedd golygfa wych. Clee Hill. Hollol anhygoel.

Rywle rhwng Llwydlo a Bridgnorth mae'r olygfa i guro pob golygfa arall. Os byddwch yn y rhan hon o'r byd, ewch i weld, da chi. Rwy'n addo, chewch chi mo'ch siomi. Ond cofiwch, anwybyddwch eich twm twm, gofalcwch fod gennych chi ddigon o danwydd, ac ewch a phicnic gyda chi – rhag ofn!

Mae'n siŵr y byddwch yn falch o wybod bod y gŵr wedi dod ati'i hun ar ôl paned ac wedyn pryd o fwyd. Cyrhaeddodd yr ieir Blas Ashpool ac maen nhw'n ymgartrefu'n fodlon gyda'r hen ferched. Ond efallai na fyddwn yn mynd 'am dro bach' am dipyn o amser eto.

Tan y tro nesaf, mwynhewch holl anturiaethau bywyd a mwynhewch y garddio!

Fiona Bell

Taith dractorau

Efallai fod rhai ohonoch wedi sylwi bod ambell dractor hen a modern wedi bod trwy'r pentre ddydd Sadwrn, 4 Medi.

Nid oedd pentre Llanrhaeadr wedi cynnal ei sioe eleni, fodd bynnag roedd y pwyllgor yn awyddus i gael taith dractorau, sy'n rhan o'r sioe bob blwyddyn. Felly aethpwyd ati i drefnu taith ar y munud olaf, ac er mawr syndod, daeth 35 tractor ynghyd. Fe gawson ni daith hyfryd o Lanrhaeadr i Landyrnog, i Dre Goch, heibio'r Berth ac i Bont Llundain.

Wedyn i fyny â ni heibio Glyn Arthur ac i lawr lôn serth lle gawson ni ginio, gyda golygfeydd hyfryd o'n blaenau dros y dyffryn. I lawr wedyn heibio'r Siglen i Langynhafal, Hendrerwydd a Gellifor, ac yn ôl i Lanrhaeadr drwy Lanynys.

Roedd un gŵr, Bill Cook, wedi gyrru'r holl ffordd o'r Alban, mewn Landrover Series 1 y diwrnod cynt (yn y llun isod). Arhosodd gyda ffrindiau yn Llandyrnog a daeth am dro gyda ni cyn mynd yn ôl i'r Alban y noson honno – taith o 250 milltir i Kelso. Am seren! Mi anfonas i neges ato'n ddiweddarach i ofyn a oedd wedi cyrraedd adre'n ddiogel – ac oedd, mi roedd, ond ei fod yn drwm ei glyw ac yn stiff!

Er gwaetha'r trefniadau funud ola, fe roeson ni i gyd £10 yn y bwced ac ers hynny mae hosbis St Cyndeyrn wedi cael cyfraniad o £350.

Bryn Davies



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday–Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area



Ysgol Bryn Clwyd

Dechreuodd y dosbarth iau y tymor drwy ddylunio cyrsiau golff bach ar gyfer marblis. Maen nhw hefyd wedi bod yn ymchwilio i adweithiau cemegol. O'r diwedd, maen nhw wedi dysgu pam mae gargoiliau carreg yn newid gydag amser, ond roedd hyn yn golygu mynd allan i ymchwilio i beth sy'n achosi ffrwydradau.



Mae dosbarth y babanod wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar eu heriau annibynnol yr wythnos yma ac wedi bod yn ymchwilio i wyddoniaeth. Y cwestiwn oedd, 'Beth fydd yn gwneud i greon doddi?' Roedd syniadau da gan y plant i gyd ac roedd gweld eu dulliau gwahanol o brofi yn ddifyr iawn. Mae'r creonau o'u stori wedi bod yn teithio'r byd ac ar fin cyrraedd Llandyrnog. Mae'r plant wedi gwneud 'gwestai' i'r creonau aros ynddyn nhw pan fyddan nhw'n cyrraedd.

Mae'r disgyblion wedi bod yn ethol y disgyblion i'w cynrychiolwyr ar y cynghorau ysgol. Bydd y Pwyllgor Eco, Cyngor yr Ysgol, y Criw Cymraeg, a'r pwyllgor Ysgolion Iach yn cyfarfod cyn bo hir i drafod cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Y clybiau ar ôl ysgol yr hanner tymor yma yw: dydd Llun – clwb ffilmiau gyda Mrs Lyon; dydd Mawrth – sioe dalentau gyda Miss Birkett; dydd Mercher – clwb garddio gyda Mr Jones.

Cafodd llwybr ymarfer corff yr ysgol ei osod yr wythnos. Ond roedd yn rhaid i'r plant ddisgwyl yn amyneddgar am ychydig ddyddiau i'r seiliau galedi cyn eu bod yn gallu ei ddefnyddio. Roedd hi'n werth disgwyl ac mae'r plant wedi bod yn mwynhau chwarae arno. Diolch yn fawr eto i'r cyngor cymuned am ei gyfraniad hael tuag ato.



Diolch i Emma (mam Dan a Jackson) am wirfoddoli i ymuno â'r llywodraethwyr. Hefyd i Owen (tad Ollie) a fydd yn parhau i fod yn ail riant-lywodraethwr Ysgol Bryn Clwyd.

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau mis Hydref: y gwasanaeth diolchgarwch blynyddol, dan arweiniad y Parch. Val; y sioe dalentau; ymweliad gan Proffesor Llusern, a pharti calan gaeaf. Ychydig wythnosau prysur cyn i'r ysgol gau am y gwyliau hanner tymor!

Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog Voice:

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones Evans, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).

Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

Procter Johnson: Y newyddion diweddaraf

Cyfarfod i'r trigolion gerllaw'r safle

Yn sgil y newyddion am werthu safle hufenfa Arla i Procter Johnson, roedd rhai preswylwyr yn y cyffiniau yn pryderu am effaith y cwmni newydd hwn ar yr ardal, o ran sŵn, llwch a chemegau. Penderfynais wahodd y cymdogion agosaf ac aelodau'r cyngor cymuned i gyfarfod â Harvey Jackson, prif weithredwr y cwmni, er mwyn iddo'i gyflwyno'i hun a'r cwmni newydd. Roedd yn gyfle i'r trigolion ofyn cwestiynau iddo.

Cafwyd trafodaeth dda am sut y bydd y cwmni newydd yn gweithredu, gan gynnwys canllaw am amseroedd gweithredu, traffig a sŵn. Roeddwn i'n teimlo bod y trigolion wedi ymateb yn dda a bod y canlyniad yn un da. Gadawodd Harvey Jackson wahoddiad i unrhyw un o'r pentre gysylltu ag o.

Yn dilyn y cyfarfod, awgrymais y dylai'r Cyngor Cymuned gyfarfod eto â Harvey Jackson a'i dîm, yn nes at y cyfnod pan fydd cynhyrchu'n dechrau, er mwyn i ni ddeall yn well sut fydd y lle'n gweithredu.

Cyngh. Merfyn Parry



Mae Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd, Dr James Davies (chwith), hefyd wedi cyfarfod â phrif weithredwr Procter Johnson, Harvey Jackson ar y safle.

(Llun: Dr James Davies)

Llun y mis



Bnawn dydd Sadwrn, 4 Medi (ar ôl i'r tractorau fod drwy'r pentre – gweler tudalen 9), roedd rali hen geir y Tri Chastell yn gyrru drwy'r plwy. Roedden nhw ar daith wedi'i hamseru o Ddinbych i Nannerch. Dyma lun Phil O'Loughlin o Porsche Carrera ar y rali. Mae rhagor o wybodaeth am y rali ar three-castles.co.uk.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

CARPET SUPPLY
Home Choose Carpets
FREE Estimates
CARPET FITTING
Own Carpets Fitted
Carpet Refitting Service
CARPET CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com

8 ffaith am dymor yr hydref

Mae'r Hydref yn enwog am ei gynaeafau, dail yn troi eu lliw, y tywydd yn oeri a'r nosweithiau'n tywyllu.

*Edrych, er prudded Hydref,
Onid hardd ei fynwent ef.*

1. Tymor yr hydref yn dechrau

Gall yr Hydref ddechrau ar un o ddau ddyddiad. Mae'r Hydref, yn ôl diffiniad rhod y Ddaear o gwmpas yr Haul, yn dechrau ar y gyhydros sy'n digwydd 22 neu 23 Medi.

Fodd bynnag, i gofnodi data'r hinsawdd, mae'n bwysig cael dyddiadau penodol y mae modd eu cymharu, felly mae Hydref y bobl tywydd bob amser yn dechrau 1 Medi.

2. Y coed yn paratoi ar gyfer y gaeaf

Un o olygfeydd mwyaf ysblennydd yr Hydref yw'r dail yn troi eu lliw. Mae'r dyddiau byrrach yn arwydd i'r coed ddechrau paratoi ar gyfer y gaeaf. Yn ystod y gaeaf, does dim digon o olau ar gyfer ffotosynthesis. Felly, wrth i'r dyddiau fyrhau, mae'r coed yn cau eu systemau cynhyrchu bwyd ac yn lleihau faint o gloroffyl sydd yn eu dail.

3. Cemegau lliw

Cloroffyl yw'r cemegyn sy'n rhoi'r lliw gwyrdd i ddail coed, ac wrth i lai ohono fod yn y dail, mae cemegau eraill yn dod yn fwy amlwg yn y dail. Y rhain sy'n gyfrifol am liwiau oren, coch a melyn llachar y gaeaf. Mae rhai o'r cemegau hyn yr un fath â'r rhai sy'n rhoi lliw i foron (beta-carotenau) a melynwy (luteinau).

4. Pobl sydd wedi'u geni yn nhymor yr Hydref yn byw'n hirach

Daeth hi'n amlwg trwy astudiaeth yn y *Journal of Aging Research* (yn Unol Daleithiau America – tybed a ydy'r un peth yn wir am bobl Cymru?) fod babanod sydd wedi'u geni yn ystod misoedd yr hydref yn fwy tebygol o fyw nes eu bod nhw'n 100 oed, na'r rheini a gafodd eu geni yn ystod gweddill y flwyddyn. Roedd 30% o bobl cant oed yn yr Unol Daleithiau wedi'u geni yn ystod yr Hydref.

5. Y dyddiau'n byrhau

Mae'r gair Saesneg am gyhydros, *equinox*, yn dod o'r Lladin *equi* (sef cyfartal) a *nox* (sef nos) ac yn dynodi'r adeg pan mae dydd a nos yn union yr un hyd.

Yn aml, byddwn yn sylwi bod y dyddiau'n byrhau o hyn ymlaen, oherwydd ar ôl cyhydros yr hydref, mae'r nosweithiau'n hirach na'r dyddiau, nes bydd hyn yn newid ar ôl cyhydros y gwanwyn.

6. Dyddiad i'ch dyddiadur – 24 Medi 2303

Fel arfer, mae cyhydros yr Hydref naill ai ar 22 neu 23 Medi, ond nid bob amser. Oherwydd nad yw calendr Gregory yn union gymesur â rhod y Ddaear, weithiau, ond yn anaml iawn, bydd cyhydros yr hydref ar 24 Medi. Digwyddodd hyn ddiwethaf yn 1931 a bydd yn digwydd nesaf yn 2303.

7. Dychweliad Persephone

Ym mytholeg gwlad Groeg, dechreuodd yr Hydref pan gafodd Persephone ei chipio gan Hades i fod yn Frenhines Annwfn. Yn ei gofid, achosodd mam Persephone, Demeter (duwies y cynhaeaf) i holl gnydau'r Ddaear farw nes byddai ei merch yn cael dychwelyd, ac felly'n dynodi'r gwanwyn.

8. Yr hydref a fall

Fel arfer, rydyn ni'n meddwl mai gair Gogledd America am yr hydref yw *fall*, ond a dweud y gwir roedd y gair yn gyffredin iawn yn Lloegr tan yn gymharol ddiweddar. Roedd yn deillio o'r dywediad *fall of the leaf*, ac roedd hwn yn ddywediad cyffredin yn Lloegr yn yr 17eg ganrif. Daeth y gair *autumn* i'r Saesneg o'r gair Ffrangeg *automne*, a daeth hwn yn fwy cyffredin yn y 18fed ganrif.

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

Senedd Plant

Bydd y senedd plant gyntaf yn digwydd yn rhithiol ddiwedd y mis yma, ac mae Dr James Davies, AS, yn chwilio am blentyn i gynrychioli Dyffryn Clwyd.

Bydd tua 650 o aelodau seneddol ifanc o ysgolion cynradd ledled Prydain, yn dadlau dros ystod eang o bynciau yn y senedd rithiol gyntaf i blant bnawn dydd Gwener, 29 Hydref am 5 o'r gloch.

Bydd y sesiwn seneddol rithiol yn cael ei chynnal mewn siambr tebyg i Dŷ'r Cyffredin, gyda hanner y plant yn cynrychioli Llywodraeth ei Mawrhydi, a'r hanner arall yn cynrychioli gwrthbleidiau teyrngar ei Mawrhydi.

'Rwy'n awyddus iawn i sicrhau cynrychioli-aeth i Ddyffryn Clwyd ac felly rwy'n eich annog i enwebu plant drwy e-bost ataf i: james.davies.mp@parliament.uk.

'Mae angen cael enwebiadau'n fuan, er mwyn i ni allu dewis AS plant Dyffryn Clwyd cyn gynted â phosibl.'



Professional and personal Foot Care in the comfort and privacy of your own home.

Treatments Include:

- ✂ Corn/Callus Removal
- ✂ Diabetic Foot Care
- ✂ Nail Trimming
- ✂ Thickened Nails
- ✂ Athlete's Foot
- ✂ Fungal Nails
- ✂ Cracked Heels
- ✂ Ingrown Toe Nails
- ✂ Verrucae
- ✂ Foot Care Advice



Initial Assessment FREE

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

http://dyffrynfootcare.com

Dyffrynfootcare
 @dyffrynfootcare



Dros ddeugain mlynedd ar ôl i Gôr Meibion Brymbo recordio'r gân enwog i gefnogi tîm pêl-droed Wrecsam, 'nôl yn 1978, mae Daniel Lloyd wedi trefnu a recordio fersiwn newydd sbon o'r gân ar gyfer cyfnod newydd yn hanes y clwb.

Recordiwyd y fersiwn newydd ar gais BBC Radio Cymru, ar gyfer y rhaglen ddogfen *I Mewn i'r Gôl* – rhaglen yn dathlu oes aur y clwb o dan y perchnogion newydd, yr actorion Ryan Reynolds a Rob McElhenney.

Ar ôl cydweithio ar drefniant newydd gyda'i ffrind a chyd-gyfansoddwr, Greg Palmer, aeth Dan ati i wneud y cyfan o'r gwaith o recordio, cynhyrchu, cymysgu a mastro'r gân gartre yn ei lofft sbâr.

Bydd y gân yn cael ei chwarae yn y Cae Ras cyn pob gêm gartref.



Mae adroddiadau wedi bod yn y Llais am y bwriad i dorri coed llarwydd oherwydd eu bod nhw wedi'u heintio. Dyma'r olygfa a fydd yn newid pan fydd y coed wedi'u torri.

(Llun: Gerry Connell)

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Medi y Cyngor Cymuned

Cafwyd trafodaeth ynghylch a oes awydd yn y gymuned i ddatlu jiwbilî 70 mlynedd y Frenhines ym mis Mehefin 2022. Awgrymwyd cynnwys erthygl am hyn yn *Llais Llandyrnog Voice*.

Yn dilyn sylwadau gan drigolion ardal Groes Efa, gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych arolwg cyflymdra yn yr ardal. Nid oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gostwng y terfyn cyflymder (gweler tudalen 7).

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod y ffordd rhwng Llangwyfan a Phont Llundain wedi'i thrwsio dros dro. Bydd gwaith trwsio mwy parhaol yn cael ei ystyried ar ôl clirio'r holl goed o Goed Llangwyfan.

Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned, gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych arolwg o oleuadau ym Maes Llan, a bydd lamp stryd yn cael ei chodi yn y maes parcio.

Mae gan y Cyngor Sir arolwg ar-lein yn holi sut y byddai'n gallu gwella'i wasanaethau. I ateb yr arolwg, ewch i sirddinbych.gov.uk a chliciwch ar 'Sut hwyl mae'r Cyngor yn ei gael arni?'

Trafodwyd safle hufenfa Arla – erbyn hyn cwmni Procter Johnson sy'n berchen arno. Cytunodd Cyngor Parry i baratoi adroddiad i'w gynnwys yn *Llais Llandyrnog Voice* (gweler t.11).

Clywyd bod Cymdeithas Bêl-droed a Chwaraeon Llandyrnog yn ystyried gwella'r pafiliwn er mwyn i'r gymuned allu defnyddio'r adeilad. Maen nhw wedi cyflogi pensaer i baratoi dyluniad bras i'w drafod eto.

Mae manylion wedi dod gan y Cyngor am grant ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Y bwriad yw gwella adeiladau cymunedol ar ôl Covid a gwneud trefnu digwyddiadau yn haws.

Mae'r parcio anystyrlon ar hyd Oliver's Row wedi gwella'n sylweddol ers i'r swyddog heddlu cymunedol ymyrryd.

Mae gosod band eang ffibr cyflym iawn yn yr Ystafelloedd Coco bron iawn wedi'i orffen. Mae angen trafod â'r gymuned beth fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio hwn.

Trafodwyd tri chais caniatâd cynllunio: codi estyniad i ochr 5 Maes Llan; manylion y gwaith adeiladu ar dir gyferbyn â Chwm Tawel; trosi rhan o adeilad allan i ffurfio anecs nain yn Hafod Derw, Llandyrnog.

Bydd y cyngor yn gwneud cais i'r Cyngor Sir i gael gwared ar y bin sydd wedi'i osod y tu mewn i arhosfan bysiau y Waen.

Mae angen ystyried cael gwared ar rhai o'r llwyni yng Nghae Nant oherwydd maen nhw'n ddrud i'w cynnal, heb fawr o fudd iddyn nhw. Penderfynwyd cyfarfod ar y safle i drafod rhagor ar y mater.

Mae'r Cyngor Sir wedi anfon y meini prawf ynghylch arwyddion yn rhybuddio pobl y bydd ceffylau ar y ffordd. Nid yw'r ffordd o Langwyfan i Gelynog yn gymwys. Fodd bynnag, penderfynwyd holi'r Cyngor eto a ydy hi'n bosib gosod arwyddion wrth nesáu at Landyrnog o'r Waen ac o Lanychan, gan fod stablau yn yr ardal a bydd hyn yn rhybuddio gyrwyr ei bod hi'n bosibl y bydd ceffylau ar y ffordd.

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

